Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH PLANT A PHOBL IFANC:

# Iechyd Meddwl

## Gwella cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Rydyn ni eisiau gwella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc sy'n byw yn ein rhanbarth, a chynyddu mynediad at gymorth.

Ein nod yw:

- Cydweithio i weithredu fframwaith NYTH.
- Cael gwell dealltwriaeth o'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael i bobl ifanc, o'r rhai ataliol i'r rhai arbenigol.
- Gwella gwybodaeth staff a gweithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth fel y gallant gefnogi pobl ifanc i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.
- Gwella cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl.
- Lleihau'r amseroedd aros i blant a theuluoedd gael diagnosis o anhwylder niwroddatblygiadol.





### DYWEDODD POBL

"Y teimlad fy mod i'n ferch fach eto, fel fy mod wedi colli fy llais, fel fy mod i'n dal i roi dŵr yn y cwpan ond dyw e byth yn llawn, byth yn fodlon. Mae'n eich bwyta chi ac yn eich dilyn o gwmpas fel cythraul."

### BETH SY'N BWYSIG I BLANT A PHOBL IFANC?

Hoffai plant a phobl ifanc gael mynediad at wasanaethau a chymorth iechyd meddwl da a chydlynol, waeth ble maen nhw'n byw yn y rhanbarth.

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithredu Fframwaith NEST/NYST.
- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i gefnogi llesiant emosiynol Plant a Phobl Ifanc.
- Datblygu a gwella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar gan gynnwys unigrwydd ac ynysrwydd.

### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Gwell iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.
- Gwell mynediad i gefnogaeth.